OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1792 (Cy. 185)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Gorffennaf 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Awst 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, â chydsyniad y Trysorlys, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2014. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 2 Awst 2014.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau i amddiffyn rhag dwyn i mewn i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion, a rhag i'r organebau hynny ymledu o fewn y Gymuned(**3**); ac

(b) ystyr "y GIP" ("*the PHO*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**4**).

(3) Mae i'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac y defnyddir eu cyfystyron Saesneg yn y Gyfarwyddeb, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag a roddir i'r cyfystyron Saesneg yn y Gyfarwyddeb.

### Ffioedd arolygu mewnforio

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran llwyth o'r canlynol, neu ran o lwyth o'r fath sy'n cynnwys—

(a) planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 a restrir yn Rhan B o Atodiad V i'r Gyfarwyddeb, neu

(b) hadau *Solanaceae,* pa un a restrir hwy ai peidio yn y Rhan honno,

(**1**) 1973 p. 51. Diwygiwyd is-adran (1) gan O.S. 2011/1043, erthygl 6(1)(e).
(**2**) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p. 32.
(**3**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/19/EU (OJ Rhif L 38, 07.02.2014, t. 30).
(**4**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/2781 (Cy. 248), 2009/1376 (Cy. 137), O.S. 2011/1043 ac O.S. 2013/888 (Cy. 100).

a ddygir i mewn i Gymru o wlad neu diriogaeth ac eithrio un sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd neu sy'n destun cytundeb a wnaed o dan erthygl 12(6) o'r GIP.

(2) Ar yr adeg y mewnforir llwyth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r mewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru—

(a) y ffi a bennir—

(i) yng ngholofn 3 o Atodlen 1 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, neu mewn perthynas â rhan o lwyth o'r fath, ac eithrio llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion, neu ran o lwyth o'r fath, y mae paragraff (ii) o'r is-baragraff hwn yn gymwys iddo, a

(ii) yng ngholofn 4 o Atodlen 2 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno ac sy'n tarddu o wlad a restrir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno, neu mewn perthynas â rhan o lwyth o'r fath; a

(b) y ffioedd a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 3 am wiriad dogfennol a gwiriad adnabod.

(3) Ond, pan gynhelir gwiriad iechyd planhigion ar lwyth y tu allan i oriau gwaith yn ystod y dydd, a hynny ar gais y mewnforiwr neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am y llwyth, y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2)(a) mewn perthynas â'r llwyth hwnnw yw—

(a) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o Atodlen 1 i'r graddau (os o gwbl) y mae'r llwyth yn un y mae paragraff (2)(a)(i) yn gymwys iddo; neu

(b) y ffi a bennir yng ngholofn 5 o Atodlen 2 i'r graddau (os o gwbl) y mae'r llwyth yn un y mae paragraff (2)(a)(ii) yn gymwys iddo.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "oriau gwaith yn ystod y dydd" ("*daytime working hours*") yw unrhyw amser rhwng yr oriau 8.30 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**5**).

### Tatws hadyd: ffioedd

**3.**—(1) Mae'r ffioedd a bennir yn Atodlen 4 yn daladwy mewn perthynas â'r swyddogaethau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, sy'n ymwneud â chais am y canlynol—

(a) ardystiad o datws hadyd yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**6**);

(b) awdurdodiad i farchnata tatws hadyd yn unol â rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny.

(2) Mae'r ffi sy'n daladwy mewn perthynas â swyddogaeth yn ddarostyngedig i unrhyw leiafswm ffi a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 4 mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

(3) Rhaid talu'r ffi mewn perthynas â swyddogaeth a bennir yn Atodlen 4 i Weinidogion Cymru neu i unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru i gyflawni'r swyddogaeth honno o dan Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 ar ran Gweinidogion Cymru.

### Ffioedd am drwyddedau iechyd planhigion

**4.**—(1) Mae'r ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn ymwneud â thrwydded a ddisgrifir yn erthygl 40 neu 41 o'r GIP.

(2) Mewn perthynas â chais neu arolygiad o fath a ddisgrifir yng ngholofn 2 o Atodlen 5, rhaid i berson dalu i Weinidogion Cymru y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r math hwnnw o gais neu arolygiad.

(**5**) 1971 p. 80; *gweler* adran 1 ac Atodlen 1.
(**6**) O.S. 2006/2929 (Cy. 264), y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

### Ffioedd am awdurdodi pasbortau planhigion

**5.**—(1) Rhaid talu'r ffi a bennir ym mharagraff (2) i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arolygiad (gan gynnwys arolygiad o gofnodion busnes) a gyflawnir mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cais am awdurdod; neu

(b) sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion a osodir ar ddeiliad awdurdod.

(2) Y ffi yw £46.10(**7**) am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr (gan gynnwys yr amser a dreulir ar arolygu, ar deithio ac ar weinyddu cysylltiedig), yn ddarostyngedig i leiafswm ffi o £92.19(**8**) am bob ymweliad.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir o dan erthygl 8 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006(**9**) neu erthygl 29 o'r GIP.

### Tatws sy'n tarddu o'r Aifft: ffioedd

**6.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy'n tarddu o'r Aifft, er mwyn canfod, at ddibenion paragraff 5 o'r Atodiad i'r Penderfyniad, a yw'r tatws hynny wedi eu heintio â *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., rhaid i'r mewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru ffi o £117.36 mewn perthynas â phob lot y cymerir sampl ohoni.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "y Penderfyniad" ("*the Decision*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i weithredu mesurau argyfwng dros dro yn erbyn lledaenu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. mewn cysylltiad â'r Aifft(**10**).

### Tatws sy'n tarddu o Libanus: ffioedd

**7.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy'n tarddu o Libanus, er mwyn canfod, at ddibenion Erthygl 4 o'r Penderfyniad, a yw'r tatws hynny wedi eu heintio â *Clavibacter michiganensis* isrywogaeth *Sepedonicus* (Spieckermann a Kotthoff) Davis et al., rhaid i'r mewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru ffi o £117.36 mewn perthynas â phob lot y cymerir sampl ohoni.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "y Penderfyniad" ("*the Decision*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/413/EU sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn perthynas â thatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa yn Libanus(**11**).

### Ffioedd heb eu talu

**8.**—(1) Pan fo unrhyw swm sy'n ddyledus fel neu ar gyfrif unrhyw ffi neu ran o ffi sy'n daladwy gan fasnachwr planhigion cofrestredig o dan y Rheoliadau hyn heb ei dalu, caniateir i Weinidogion Cymru—

(a) adennill y swm fel dyled sifil;

(b) ar ôl rhoi un mis o rybudd ysgrifenedig, atal cofrestriad y masnachwr dros dro tan fod y swm wedi ei dalu.

(**7**) Y ffi gyfatebol a oedd yn daladwy o dan reoliad 5(2) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/1700 (Cy. 164)) cyn i'r Rheoliadau hyn gychwyn oedd £38.05.
(**8**) Y ffi isaf gyfatebol a oedd yn daladwy o dan reoliad 5(2) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn gychwyn oedd £76.10.
(**9**) O.S. 2006/1344 (Cy. 134), y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) OJ Rhif L 319, 2.12.2011, t. 112.
(**11**) OJ Rhif L 205, 1.8.2013, t .13.

(2) Yn y rheoliad hwn mae i "cofrestredig", "masnachwr planhigion" a "cofrestriad" yr ystyron a roddir i "registered", "plant trader" a "registration" yn eu tro gan erthygl 2(1) o'r GIP.

**Dirymu**

**9.** Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2013(**12**) wedi eu dirymu.

*Alun Davies*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

6 Gorffennaf 2014

(**12**) O.S. 2013/1700 (Cy. 164).

## ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)(a), (2)(a)(i) a (3)(a)

### Ffioedd Arolygu Mewnforio

| *Colofn 1*<br><br>*Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod*<br><br>*y dydd) (£)* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod*<br><br>*yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|
| Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd coedwigaeth atgenhedlol), planhigion ifanc mefus neu lysiau | hyd at 10,000 o ran nifer | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 1,000 ychwanegol, neu ran o hynny | 1.91, hyd at uchafswm o 382.92 | 2.87, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi'u torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill yn cynnwys deunydd coedwigaeth atgenhedlol (ac eithrio hadau) | hyd at 1,000 o ran nifer | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny | 1.17, hyd at uchafswm o 382.92 | 1.76, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws) a fwriedir ar gyfer eu plannu | hyd at 200 kg | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 0.44, hyd at uchafswm o 382.92 | 0.65, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Hadau, meithriniadau meinwe | hyd at 100 kg | 20.51 | 30.77 |
| | am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 0.47, hyd at uchafswm o 382.92 | 0.70, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon | hyd at 5,000 o ran nifer | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny | 0.47, hyd at uchafswm o 382.92 | 0.70, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Blodau wedi'u torri | hyd at 20,000 o ran nifer | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 1,000 ychwanegol, neu ran o hynny | 0.37, hyd at uchafswm o 382.92 | 0.55, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Canghennau gyda deiliant, rhannau o | hyd at 100 kg | 47.87 | 71.80 |

| *Colofn 1*<br><br>*Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod*<br><br>*y dydd) (£)* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod*<br><br>*yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|
| gonifferau (ac eithrio coed Nadolig wedi'u torri) | am bob 100 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 4.76, hyd at uchafswm o 382.92 | 7.14, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Coed Nadolig wedi'u torri | hyd at 1,000 o ran nifer | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 100 ychwanegol, neu ran o hynny | 4.76, hyd at uchafswm o 382.92 | 7.14, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Dail planhigion, megis perlysiau, sbeisys a llysiau deiliog | hyd at 100 kg | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 4.76, hyd at uchafswm o 382.92 | 7.14, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Ffrwythau, llysiau (ac eithrio llysiau deiliog) | hyd at 25,000 kg | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 1.91 | 2.87 |
| Cloron tatws | hyd at 25,000 kg | 143.60 (am bob lot) | 215.39 (am bob lot) |
| | am bob 25,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 143.60 (am bob lot) | 215.39 (am bob lot) |
| Pridd a chyfrwng tyfiant, rhisgl | hyd at 25,000 kg | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 1.91, hyd at uchafswm o 382.92 | 2.87, hyd at uchafswm o 574.38 |
| Grawn | hyd at 25,000 kg | 47.87 | 71.80 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 1.91, hyd at uchafswm o 1914.60 | 2.87, hyd at uchafswm o 2871.90 |
| Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon, ac eithrio coed fforestydd | am bob llwyth | 47.87 | 71.80 |

ATODLEN 2 Rheoliad 2(2)(a)(ii) a (3)(b)

Ffioedd Arolygu Mewnforio: Cyfraddau Gostyngol

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 5*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|---|
| **Blodau wedi'u torri** | | | | |
| *Dianthus* | hyd at 20,000 o ran nifer | Colombia | 1.43 | 2.15 |
| | | Ecuador | 7.18 | 10.77 |
| | | Kenya | 2.39 | 3.59 |
| | | Twrci | 11.96 | 17.95 |
| | am bob 1,000 ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.01 hyd at uchafswm o 11.48 | 0.01, hyd at uchafswm o 17.23 |
| | | Ecuador | 0.05, hyd at uchafswm o 57.43 | 0.08, hyd at uchafswm o 86.15 |
| | | Kenya | 0.02, hyd at uchafswm o 19.14 | 0.03, hyd at uchafswm o 28.71 |
| | | Twrci | 0.09, hyd at uchafswm o 95.73 | 0.13, hyd at uchafswm o 143.59 |
| *Rosa* | hyd at 20,000 o ran nifer | Colombia | 1.43 | 2.15 |
| | | Ecuador | 1.43 | 2.15 |
| | | Ethiopia | 4.78 | 7.18 |
| | | Kenya | 2.39 | 3.59 |
| | | Tanzania | 7.18 | 10.77 |
| | | Zambia | 11.96 | 17.95 |
| | am bob 1,000 ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.01, hyd at uchafswm o 11.48 | 0.01, hyd at uchafswm o 17.23 |
| | | Ecuador | 0.01 hyd at uchafswm o 11.48 | 0.01, hyd at uchafswm o 17.23 |

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 5*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|---|
| | | Ethiopia | 0.04, hyd at uchafswm o 38.29 | 0.06, hyd at uchafswm o 57.43 |
| | | Kenya | 0.02, hyd at uchafswm o 19.14 | 0.03, hyd at uchafswm o 28.71 |
| | | Tanzania | 0.05, hyd at uchafswm o 57.43 | 0.08, hyd at uchafswm o 86.15 |
| | | Zambia | 0.09, hyd at uchafswm o 95.73 | 0.13, hyd at uchafswm o 143.59 |
| **Canghennau gyda deiliant** | | | | |
| *Phoenix* | hyd at 100 kg | Costa Rica | 16.75 | 25.13 |
| | am bob 100 kg ychwanegol neu ran o hynny | Costa Rica | 1.66, hyd at uchafswm o 134.02 | 2.49, hyd at uchafswm o 201.03 |
| **Ffrwythau** | | | | |
| *Citrus* | hyd at 25,000 kg | Yr Aifft | 7.18 | 10.77 |
| | | Israel | 4.78 | 7.18 |
| | | Mecsico | 7.18 | 10.77 |
| | | Moroco | 2.39 | 3.59 |
| | | Periw | 7.18 | 10.77 |
| | | Tunisia | 11.96 | 17.95 |
| | | Twrci | 1.43 | 2.15 |
| | | Uruguay | 7.18 | 10.77 |
| | | UDA | 7.18 | 10.77 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Yr Aifft | 0.28 | 0.43 |
| | | Israel | 0.19 | 0.28 |
| | | Mecsico | 0.28 | 0.43 |
| | | Moroco | 0.09 | 0.14 |
| | | Periw | 0.28 | 0.43 |

| *Colofn 1* <br><br> *Genws* | *Colofn 2* <br><br> *Swm* | *Colofn 3* <br><br> *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* <br><br> *Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 5* <br><br> *Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|---|
| | | Tunisia | 0.47 | 0.71 |
| | | Twrci | 0.05 | 0.08 |
| | | Uruguay | 0.28 | 0.43 |
| | | UDA | 0.28 | 0.43 |
| *Malus* | hyd at 25,000 kg | Ariannin | 11.96 | 17.95 |
| | | Brasil | 11.96 | 17.95 |
| | | Chile | 2.39 | 3.59 |
| | | Seland Newydd | 4.78 | 7.18 |
| | | De Affrica | 2.39 | 3.59 |
| | | UDA | 23.93 | 35.90 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.47 | 0.71 |
| | | Brasil | 0.47 | 0.71 |
| | | Chile | 0.09 | 0.14 |
| | | Seland Newydd | 0.19 | 0.28 |
| | | De Affrica | 0.09 | 0.14 |
| | | UDA | 0.95 | 1.43 |
| *Mangifera* | hyd at 25,000 kg | Brasil | 23.93 | 35.90 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Brasil | 0.95 | 1.43 |
| *Passiflora* | hyd at 25,000 kg | Colombia | 4.78 | 7.18 |
| | | Kenya | 4.78 | 7.18 |
| | | De Affrica | 16.75 | 25.13 |
| | | Zimbabwe | 35.90 | 53.85 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.19 | 0.28 |
| | | Kenya | 0.19 | 0.28 |
| | | De Affrica | 0.66 | 1.00 |
| | | Zimbabwe | 1.43 | 2.15 |
| *Prunus* | hyd at 25,000 kg | Ariannin | 23.93 | 35.90 |

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 5*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|---|
| | | Chile | 4.78 | 7.18 |
| | | Moroco | 23.93 | 35.90 |
| | | De Affrica | 4.78 | 7.18 |
| | | Twrci | 7.18 | 10.77 |
| | | UDA | 7.18 | 10.77 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.95 | 1.43 |
| | | Chile | 0.19 | 0.28 |
| | | Moroco | 0.95 | 1.43 |
| | | De Affrica | 0.19 | 0.28 |
| | | Twrci | 0.28 | 0.43 |
| | | UDA | 0.28 | 0.43 |
| *Pyrus* | hyd at 25,000 kg | Ariannin | 4.78 | 7.18 |
| | | Chile | 11.96 | 17.95 |
| | | Tsieina | 23.93 | 35.90 |
| | | De Affrica | 4.78 | 7.18 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.19 | 0.28 |
| | | Chile | 0.47 | 0.71 |
| | | Tsieina | 0.95 | 1.43 |
| | | De Affrica | 0.19 | 0.28 |
| *Vaccinium* | hyd at 25,000 kg | Ariannin | 11.96 | 17.95 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.47 | 0.71 |
| **Llysiau** | | | | |
| *Capsicum* | hyd at 25,000 kg | Israel | 2.39 | 3.59 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Israel | 0.09 | 0.14 |
| *Momordica* | hyd at 25,000 kg | Surinam | 16.75 | 25.13 |

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 4*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 5*<br><br>*Ffi am bob llwyth neu ran berthnasol o lwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|---|
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Surinam | 0.66 | 1.00 |
| *Solanum melongena* | hyd at 25,000 kg | Kenya | 4.78 | 7.18 |
| | | Twrci | 4.78 | 7.18 |
| | am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Kenya | 0.19 | 0.28 |
| | | Twrci | 0.19 | 0.28 |

## ATODLEN 3

Rheoliad 2(2)(b)

### Ffioedd Arolygu Mewnforio: Gwiriadau Dogfennol a Gwiriadau Adnabod

| *Colofn 1*<br><br>*Gwiriad* | *Colofn 2*<br><br>*Swm* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| Dogfennol | am bob llwyth | 5.71 |
| Adnabod | am bob llwyth hyd at faint llwyth lori, llwyth wagen reilffordd neu lwyth cynhwysydd o faint cymharol | 5.71 |
| | am bob llwyth sy'n fwy na'r maint uchod | 11.42 |

## ATODLEN 4

Rheoliad 3

### Tatws Hadyd: Ffioedd

| *Colofn 1*<br><br>*Swyddogaeth* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi*(1) *(£)* | *Colofn 3*<br><br>*Isafswm ffi (£)* |
|---|---|---|
| **Arolygu cnydau sy'n tyfu a darparu labeli a seliau mewn perthynas â cheisiadau** | | |

**(1)** Mae'r cyfraddau, a restrir yn y golofn hon ac yng ngholofn 3, sydd wedi eu marcio â seren yn gyfraddau fesul awr neu ran o awr, a'r cyfraddau nad ydynt wedi eu marcio felly yn gyfraddau fesul hanner hectar

| *Colofn 1* *Swyddogaeth* | | *Colofn 2* *Ffi[(1)] (£)* | *Colofn 3* *Isafswm ffi (£)* |
|---|---|---|---|
| Ardystio fel tatws hadyd cynsylfaenol | | 129.84* | d/g |
| Ardystio fel tatws hadyd sylfaenol a ddosberthir fel: | super elite 1, super elite 2 neu super elite 3 | 64.92 | 129.84 |
| | elite 1, elite 2 neu elite 3 | 64.92 | 129.84 |
| | A | 61.71 | 123.43 |
| Ardystio fel tatws hadyd ardystiedig | | 56.10 | 112.20 |
| Awdurdodiad i farchnata tatws hadyd | | 129.84* | d/g |
| **Arolygu cloron a gynaeafwyd** | | | |
| Hyd at ddau arolygiad | | 19.24 | 38.47 |
| Trydydd arolygiad ac arolygiadau dilynol | | 129.84* | d/g |

**(1)** Mae'r cyfraddau, a restrir yn y golofn hon ac yng ngholofn 3, sydd wedi eu marcio â seren yn gyfraddau fesul awr neu ran o awr, a'r cyfraddau nad ydynt wedi eu marcio felly yn gyfraddau fesul hanner hectar

## ATODLEN 5

Rheoliad 4(2)

### Ffioedd am Drwyddedau Iechyd Planhigion

| *Colofn 1* *Eitem* | *Colofn 2* *Math o gais neu arolygiad* | *Colofn 3* *Ffi (£)* |
|---|---|---|
| 1 | Cais am drwydded ac eithrio trwydded sy'n dod o fewn eitem 2 neu 3 neu 5 | 809.83 |
| 2 | Cais am drwydded mewn perthynas â phridd neu gyfrwng tyfu arall ar gyfer ei ddadansoddi | 584.14 |
| 3 | Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu ddibenion treialu, sy'n ymwneud â 5 neu ragor o fathau o bethau | 809.83, plws 31.86 am bob math o beth dros ben y 5 |
| 4 | Cais am adnewyddu neu amrywio trwydded gyda newidiadau, pan fo asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol | 265.21 |
| 5 | Cais am drwydded i awdurdodi cyflwyno tatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar neu Bekaa yn Libanus | 31.86 |

| *Colofn 1*<br><br>*Eitem* | *Colofn 2*<br><br>*Math o gais neu arolygiad* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| 6 | Cais am adnewyddu trwydded heb newidiadau, neu gais am adnewyddu neu amrywio trwydded gyda newidiadau bach yn unig, pan nad yw asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol | 31.86 |
| 7 | Arolygu a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) i fonitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau trwydded. | 46.11 am bob awr neu ran o awr |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd planhigion. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/1700 (Cy. 164)) ("Rheoliadau 2013") (rheoliad 9).

Mae'r ffioedd yn daladwy mewn perthynas ag arolygiadau penodedig a gweithrediadau eraill a gyflawnir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau i amddiffyn rhag dwyn i mewn i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion, a rhag i'r organebau hynny ymledu o fewn y Gymuned (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1).

Pennir y ffioedd am wiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion mewn perthynas â mewnforion penodol o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd (rheoliad 2 ac Atodlenni 1, 2 a 3) yn unol â'r gofyniad yn Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC.

Lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn y Rheoliadau hyn yw'r rhan olaf o symudiad fesul cam, dros gyfnod o dair blynedd, tuag at ffioedd sy'n adennill y gost lawn. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gostyngiad a chynnydd cyfartalog ar y ffioedd a bennwyd yn Rheoliadau 2013, ac ar gyfer eu cadw heb eu newid, fel a ganlyn:

(1) gostwng ffioedd arolygu mewnforio (heblaw gwiriad dogfennol a gwiriad adnabod) yn ôl 3.5% (rheoliad 2 ac Atodlenni 1 a 2);

(2) cynyddu ffioedd gwiriad dogfennol a gwiriad adnabod wrth fewnforio yn ôl 24.5% (rheoliad 2 ac Atodlen 3);

(3) cadw ffioedd ynglŷn ag arolygu tatws hadyd heb eu newid (rheoliad 3 ac Atodlen 4);

(4) cynyddu ffioedd trwyddedu yn ôl 2.2% (rheoliad 4 ac Atodlen 5);

(5) cynyddu ffioedd am wasanaethau pasbortau planhigion yn ôl 21.2% (rheoliad 5); a

(6) cadw ffioedd am arolygu tatws sy'n tarddu o'r Aifft heb eu newid (rheoliad 6).

Cyflwynir ffioedd newydd ynglŷn â thatws sy'n tarddu o Libanus fel a ganlyn: £31.86 am gais am drwydded (Atodlen 5, eitem 5) a £117.39 am arolygu (rheoliad 7).

Mae rheoliad 8 yn nodi canlyniadau peidio â thalu unrhyw ffi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiadau effaith rheoleiddiol wedi eu paratoi (ar

gyfer mwyafrif y ffioedd a bennir) o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. O ran ffioedd mewn perthynas â thatws sy'n tarddu o Libanus, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copïau o'r asesiadau effaith rheoleiddiol oddi wrth y Tîm Amgylchedd Naturiol ac Amaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.